

Elusen Gofrestredig Rhif 507948

## Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

**CYMDEITHAS BOB OWEN**  
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn  
(Awst - Gorffennaf neu  
Ionawr - Rhagfyr) i'w anfon i'r  
Trysorydd

### SWYDDOGION

*Cadeirydd:*  
Rhidian Griffiths  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth, Ceredigion

### Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies  
Llyfrgell Genedlaethol Cymru  
Aberystwyth, Ceredigion  
(01970) 623174

### Trysorydd:

Gwyndaf Roberts  
Cae'r Hafod, Maes Caled  
Dolgellau LL40 1UF  
(01341) 423959

### Golygydd:

Mel Williams  
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn  
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA  
ebost:tanycastell@yahoo.com  
(01678) 540652

### Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion  
Mrs Mair Edwards  
Maredudd ap Huw  
Dafydd Glyn Lloyd Hughes  
E. Wyn James  
Dafydd Jones  
Huw Ceiriog Jones  
Rheinallt Llwyd  
Deian ap Rhisiart

## Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân  
hysbysebion i'r **GOLYGYDD**  
**ERBYN Medi 27**

## CYNNWYS

	Tud.
Swfenir, William Owen	1
At y golygydd	2
Trychineb Aberfan, Wendy Grey Lloyd	3
Darn o Lŷn, Ifan Pritchard	5
Hen Argraffydd o Lanrwst, Stan Wicklen	6
Griffith Roberts o Lanuwchllyn, Elfed Owen	7
Delweddau o'r Gorffennol, Philip Lloyd	8
Ychwaneg o atgofion Hen Heddwes, Bert Parry	9
Dirgelwch ein Llyw Olaf, Meic Stephens	11
Cornel y Beirdd, Dafydd Morris	11
Y Llafurwr Darllengar, Gerald Morgan	17
Pigion Bruce	17
Llyfrau Prin y Bala, Iolo Wyn Williams	21



Cibyn, Caernarfon,  
Gwynedd LL55 2BD  
**Argraffwyd a  
Chyhoeddwyd**  
Ffôn: (01286) 674486

## GWASANAETH Y DEILLION

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu  
tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y  
Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas.  
Am fwy o wybodaeth cysylltwch â  
**Miss Anne K. Till (01970) 820235**

# Golygyddol

RYDYM am roi cynnig ar ddau beth newydd sbon i'r aelodau eleni, sef teithiau fore Sadwrn i fannau hanesyddol, ac ymweliad â'r Llyfrgell Genedlaethol i weld sut mae rhwymo llyfrau a sut i ofalu am lyfrau ac hefyd i weld hen ffilmiau lleol a ddangosir i'r aelodau yn y Llyfrgell. Mae'n bryd i ni'r aelodau gael cynnig pethau gwahanol wrth fod yn perthyn i'r Gymdeithas.

Yn Ffair y Gymdeithas yn y Bala ym Medi, cynhelir ocsiwn o bethau anarferol yn y prynhawn, megis mân lyfrynau, cyfrolau o lyfrau, recordiau, llythyrau neu gardiau post oddi wrth rywun enwog neu â llofnod rhywun adnabyddus arnynt. Ceir rhestr o'r gwahanol eitemau yn y rhifyn hwn. Gobeithir cael ychwaneg erbyn Medi. Os oes gennych rywbeth a fyddai o werth i'r ocsiwn mi fyddwn yn falch o gael clywed oddi wrthyh.

Gellir gosod pris gwaelodol, a dim ond deg y cant o'r pris terfynol fydd yn mynd i'r Gymdeithas.

Mae nifer o lefydd gwag ar Bwyllgor y Gymdeithas, ac o'r herwydd amgaeir taflen yn y rhifyn hwn er mwyn ichi ethol unigolion o wahanol ardaloedd yng Nghymru. Yn y modd yma, gobeithir cael cynrychiolaeth deg dros Gymru a all fod o fudd i'r Gymdeithas ddatblygu.

Ceir dau lyfryn raffl unwaith eto eleni. Cafwyd ymateb rhagorol y tro diwethaf. Daliwch ati. Drwy'r arian ychwanegol, rydym yn gwella diwyg *Y Casglwr* ac yn denu mwy i ymaloedi.

Cofiwch alw yn y babell am sgwrs ar Faes yr Eisteddfod, a dowch â'ch syniadau a'ch enwebiadau ar gyfer sedd ar Bwyllgor y Gymdeithas.

# At y Golygydd

5 Milton Street  
Cwmaman  
Aberdâr

*yma yn derbyn arian da am ei waith. Sut arall roedd o'n medru talu arian da am y creaduriaid - cymaint â phunt am gadno?*

Annwyl Olygydd,

Ryw chwe blynedd yn ôl ysgrifennais lythyr a ymddangosodd yn *Llafar Gwlad* (rhif 59, Gwanwyn 1998) i holi p'un a oedd gan rywun oleuni pellach i'w daflu ar swyddogaeth a theitl gŵr a fu ar waith o gwmpas hen eglwys plwyf Aberdâr tua dechrau'r 19g ac a elwid yn 'bercatwr'.

Ni chafwyd yr un ymateb y gwn i amdano nes i erthygl Pegi Lloyd Williams ar 'Yr Hen Glochdydd' ymddangos yn rhifyn diweddaraf eich cylchgrawn chithau (rhif 80, Gwanwyn 2004, t. 5).

Yn anffodus, wrth gyfeirio at f'ymholiad gwreiddiol a'r ffynhonnell neilltuol yr oeddwn yn tynnu oddi arni (sef erthygl Ben Morus yn *Cymru*, Ionawr 1908, t. 38), lithrodd un neu ddau gamgymeriad i ymateb P.L.I.W.

Yn y lle cyntaf, ni ddywedodd Morus 'swyddog nodedig iawn oedd yn 'Percatwr' [sic], ac roedd yn glochdydd ac yn dorwr beddau.'

Wrth lunio'i ddarn am fynwent ac eglwys ganoloesol Ioan Fedyddiwr, Aberdâr tynnai Morus oddi ar draddodiadau llafar yr ardal ('*hynafgwr... oedd yn cofio...*'). Fel hyn y dywed Morus (ac fel hyn yr oeddwn yn ofalus i'w ddyfynnu): '*Swyddog nodedig iawn yn perthyn i'r eglwys oedd y Percatwr [sic]... Ar droion, torrai y Percatwr feddau, ynghyd â chanu y gloch ar brydiau yn absenoldeb y clochdydd.*'

Nid 'clochdydd a thorrwr beddau' ydoedd felly, ond rhywun a wnâi waith o'r fath yn absenoldeb y sawl a'i gwnâi fel arfer; ac nid 'percatwr' ydoedd chwaith.

Yn ail, wrth lunio'r ymholiad gwreiddiol nid oeddwn 'yn gofyn beth oedd "Percatwr"' (ys dywed P.L.I.W) gan fod hynny'n amlwg ddiog oddi wrth sylwadau Ben Morus. Gofyn oeddwn yn *Llafar Gwlad* pa mor gyffredin yng Nghymru a Lloegr oedd swyddogaeth y percatwr yn ôl disgrifiad Morus ohono a beth, tybed, oedd tarddiad y gair 'percatwr'?

Prif sylw Morus ynghylch y 'percatwr' oedd mai ef fyddai'n talu ffermwy'r lleol am ladd 'y llwythau ysglyfaethus - y cadnau, wenci, ffuilbart etc.' ac am ddwyn eu cyrrf ato i'w hongian 'wrth ganghennau'r ywen' yn mynwent y plwyf 'fel dangoseg i fynychwyr yr eglwys nas talesid yr arian yn ofer.'

Yn ei erthygl sonia P.L.I.W am sawl hen glochdydd, ac yn eu mysg 'Sion Ffidil Dawrch... melinydd... (a) chlochdydd Eglwys Llanbedr-y-Cennin.' Dywed amdano taw 'Dal tyrchod daer yn yr haf a chwarae'r delyn yn y tafarndai yn y gaeaf' fyddai ei hoff bleserau. Mae'n debyg taw ar sail 'pleser' o'r fath, ac o gofio sylwadau Ben Morus am swyddogaeth y 'percatwr' yn Aberdâr, mentra P.L.I.W. yn garedig eglurhad ar darddiad y gair hwn: mai o'r ferf 'percu' (to trim, to smarten) y daw, a 'hwyrach mai tacsidermydd oedd

Er gwaethaf y cynnig gofalus hwn, deuthum i gasgliad sicrach (ond llai swynol) erbyn hyn.

Yr wyf yn siŵr bellach taw gwrtaid y gair 'percatwr', fel y'i cafwyd gan Morus, yw'r term safonol 'procurator/procurator' a grybwyllir yn *Geiriadur Prifysgol Cymru* (t. 2,900): benthyciad a chyfaddasiad o'r Saesneg Diweddar Cynnar 'procurator' yn golygu 'stewart, tithe-collector'. A'r *Geiriadur* yn ei flaen i nodi'r ystyron Cymraeg cyfatebol 'Warden eglwys;? casglwr degymau' gan ddyfynnu nid yn unig enghreifftiau llenyddol yn ôl at 1574, ond hefyd amrywiaethau llafar a'n dwg dipyn yn nes at y ffurf-llafar a gafodd Morus gan 'hynafgwr' yn Aberdâr ddechrau'r 20G - bocartwr; brocartwr; parcatwr a precatwr (a'r ddau olaf ar led o ddechrau'r 19G ym Morgannwg yn benodol).

Trwy'r ardd etymolegol hon, heb amheuaeth, y rhéd gwreiddiau'r gair. Ffurfiâu safonol eraill yn Gymraeg a Saesneg sy â chyswllt parod â'r gair yw 'proctor / proctorion / proctor' (C) a 'proctor / procurator / proxy' (S). Nid oes amheuaeth taw pendraw'r wraidd yw'r elfen Ladin 'procurator' a ddechreuodd ei hynt fel term am 'swyddog ariannol teithiol yn yr Ymerodraeth Rufeinig' (chwedl y *Geiriadur* t. 2,901), neu 'a functionary who collected the imperial revenue both in Rome and in the provinces' (chwedl fy ngeiriadur Lladin).

Ceir adlewyrchiad o weithgaredd swyddogol a *chylidol* y fath weinyddwr yn y term 'procurator fiscal' a ddefnyddir yn Yr Alban hyd heddiw. Nid torrwr beddau, clochdydd na thacsidermydd fu'r 'percatwr' yn Aberdâr (a manau eraill am wn i) eithr gŵr â gofal am dalu dros y plwyf symiau o incwm y plwyf - boed o'r degwm (fel yr awgryma'r enghreifftiau yn GPC) ynteu o'r *Church Rate*.

Yn y bôn, gair yw o'r Lladin (trwy'r Saesneg) am swyddog a ddaeth yn fwyfwy hysbys fel 'warden eglwys' wrth gynefindra â'r Lladin gilio.

Fel y gŵyr pawb a wnaeth ddefnydd o gofnodion plwyf, ac yn arbennig cyfrifon wardeiniaid eglwysig, nid anghyffredin yw dod ar draws nodiadau gan y rheiny o dro i dro yn crybwyll eu tâl i hwn a'r llall o fewn y plwyf am hynny o bennau drudwyd neu gyrrf gwaddod. Dyna, ymysg pethau eraill, un o'u dyletswyddau: hybu gwaredu'r plwyf o'r 'llwythau ysglyfaethus'.

O fyw mewn cymdeithas drefol a bod yn aelod o deulu a wnaeth nemor ddim o'i wirfodd (tan y ddiweddar) â'r eglwys esgobol ers tua dwy ganrif a hanner, nid oeddwn yn gyfarwydd o gwbl â'r gair 'percatwr'. Dieithrwyd y gair a'm tafodd i ddyfalu amdano. Ond, gyda chymorth amhrisiadwy GPC, ceir ateb i bob gofyn!

Yn bur,  
D.L.DAVIES.